**PET(4) SAR 27**
**Y Pwyllgor Deisebau**
**Ymgynghoriad ar ddeiseb P-04-432 Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion**
**Ymateb gan M. Angharad Roberts**

[redacted]

Annwyl Gyfaill

Rwy'n ysgrifennu atoch gan fy mod yn ei hystyried yn warth arnom fod Prydain Fawr yw'r unig un o'r 27 gwladwriaeth sydd yn Undeb Europeaidd sy'n recriwtio plant, a hynny cyn ieuenged â 16 mlwydd oed, i'r lluoedd arfog. Yn ysgystal ni yw'r unig wladwriaeth yn NATO sy'n gwneud.

Fe wyddom hefyd fod y lluoedd arfog yn targedu'r ysgolion

yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig wrth recriwtio. Deallaf hefyd fod Pwyllgor Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig wedi annog Llywodraeth Prydain yn 2008 i ail-ystyried ei pholisi.

Gobeithiaf yn awr bydd ein Cynulliad Cenedlaethol ni yma yng Nghymru yn ymateb yn gadarnhaol i'n deiseb i ysgolion Cymru atal y lluoedd arfog rhag recriwtio plant o'u mewn.

Yr eiddoch yn gywir,

M. Angharad Roberts